# LC1403

| ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR DEDDFAU | LEGISLATION COMMITTEE REPORT |
|---|---|

## The Avian Influenza and Influenza of Avian Origin in Mammals (Wales) (No.2) Order 2006

Mae’r Gorchymyn hwn yn dirymu ac yn disodli Gorchymyn Ffliw Adar a Ffliw sy'n Tarddu o Adar mewn Mamaliaid (Cymru) 2006 (O.S. 2006/1762 (Cy. 184)) ("y Gorchymyn gwreiddiol"). Mae’n parhau i drosi Cyfarwyddeb y Cyngor 2005/94/EC ar fesurau Cymunedol ar gyfer rheoli ffliw adar a diddymu Cyfarwyddeb 92/40/EC (OJ Rhif L10, 14.1.2006, p16), ("y Gyfarwyddeb"), ac eithrio Pennod IX. Mae Pennod IX y Gyfarwyddeb yn ymdrin â brechu a chaiff ei throsi gan Reoliadau Ffliw Adar (Brechu) (Cymru) (Rhif 2) 2006.

Gwnaed y Gorchymyn hwn gan ddefnyddio gweithdrefn rannol Weithredol, wedi iddo gael ei gymeradwyo yn y Cyfarfod Llawn ar 7 Tachwedd 2006, ond heb iddo gael ei ystyried ymlaen llaw gan y Pwyllgor Deddfau.

## Rheol Sefydlog 11.7

Nodwyd y pwyntiau canlynol i fod yn destun adroddiad o dan Reol Sefydlog 11.7.

Ym mharagraff (a) o’r diffiniad o "contact premises" yn erthygl 2, dylai’r croesgyfeiriad fod yn gyfeiriad at Ran 4 ac nid at Ran 3. [Rheol Sefydlog 11.7(v)]

Mae Erthygl 76(2) yn cynnwys croesgyfeiriad at 46(5); ond gan fod y cyd-destun yn cyfeirio at fynd i gostau, dylai gyfeirio at 46(6). [Rheol Sefydlog 11.7(v)]

Mae Erthygl 81(2) yn cynnwys croesgyfeiriad at baragraff (2)(d). Dylai gyfeirio at (1)(d). [Rheol Sefydlog 11.7(v)]

Fel yn y Gorchymyn gwreiddiol mae nifer o enghreifftiau o iaith ryw benodol. Dylid disodli’r rhain pan gaiff y Gorchymyn hwn ei ail-wneud. Mae rhai o’r enghreifftiau yn digwydd mewn rhannau o’r testun sydd wedi eu newid neu eu hychwanegu ers i’r Gorchymyn gwreiddiol gael ei wneud, ond mae rhai ohonynt yn disodli cyfeiriadau a oedd yn gywir y tro diwethaf. Er bod hyn yn groes i bolisi’r Cynulliad ar y mater hwn, bydd y Ddeddf Ddehongli yn osgoi unrhyw broblemau cyfreithiol a allai godi o’r rhan fwyaf o’r achosion hyn. Fodd bynnag, mae nifer o enghreifftiau, yn erthyglau 15(1), 33 (1)(d) a 34(1), o ddefnyddio "he" neu "his" lle y dylid fod wedi defnyddio "it" neu "its" mewn cysylltiad â’r Cynulliad Cenedlaethol. [Rheol Sefydlog 11.7(vii)]

Mân wallau drafftio neu deipograffyddol yw’r rhain a fyddai wedi bod yn addas i’w cywiro drwy gyfrwng Memorandwm Cywiriadau. Bellach bydd angen deddfwriaeth gywiro.

Gwnaed y Gorchymyn hwn yn Saesneg yn unig. Gan fod angen y ddeddfwriaeth ar frys ac y byddai paratoi testun dwyieithog wedi cymryd gormod o amser, penderfynodd y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad nad oedd yn bosibl ei wneud yn ddwyieithog. [Rheol Sefydlog 11.7(viii)]

## Sylwadau

Mae gan Erthygl 37 baragraff (1) diangen gan nad oes unrhyw baragraffau dilynol.

Mae Erthygl 61(1)(b) yn cynnwys croesgyfeiriad at 61(1). Mae’n ymddangos y dylai gyfeirio at 61(1)(a).

## David Melding AC

Cadeirydd y Pwyllgor Deddfau

## 28 Tachwedd 2006